# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

**RHAN 1**

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

**PENNOD 2**

GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AWDURDOD LLEOL

**10 Dyletswydd i fabwysiadu rheolau sefydlog ynghylch rheoli staff**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol drwy reoliadau i awdurdod lleol—

(a) ymgorffori darpariaeth ragnodedig sy'n ymwneud â rheoli staff a ddarperir o dan adran 8(1)(b) yn ei reolau sefydlog;

(b) gwneud addasiadau eraill i'r rhai o blith ei reolau sefydlog sy'n ymwneud â rheoli staff.

(2) Yn yr adran hon nid yw “rheoli staff” yn cynnwys penodi staff neu ddiswyddo staff neu gymryd camau disgyblu eraill yn erbyn staff.